**ADNODD Y DYSGWYR – darn allan o *Mwy na Bardd*, bywyd a gwaith Dylan Thomas gan Kate Crockett, tud. 99-101**

Mae'r darn hwn yn rhoi ychydig o hanes Dylan Thomas yn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd, gan ddechrau gyda'i sefyllfa ariannol, cyn disgrifio ei fywyd yn Nhalacharn.

Darllenwch y darn canlynol, yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Nodiadau**:
D.J. oedd tad Dylan Thomas
Vernon Watkins oedd un o ffrindiau Dylan. Roedd hefyd yn fardd.

... Ond doedd ganddo ddim syniad sut i gadw trefn ar bethau'n ariannol, ac ni lwyddodd erioed i gadw'r blaidd o'r drws, a phan fyddai'n cael gafael ar arian byddai'n ei wario fel dŵr. O'i gymharu â'r rhan fwyaf o Gymry'r cyfnod, roedd yn byw yn fras. Anfonodd Llewelyn ac Aeronwy i ysgolion preswyl, ac ymaelododd â chlybiau preifat yn Llundain. Roedd gan Caitlin help i ofalu am y plant a'r cartref, ac wrth gwrs, roedd angen talu am fwynhau bywyd. Am weddill ei ddyddiau, roedd Dylan yn ddibynnol ar haelioni nifer o noddwyr, benywaidd yn bennaf, oedd yn fodlon ei gefnogi'n ariannol mewn gwahanol ffyrdd. Y pwysicaf o'r rhain oedd Margaret Taylor. Daeth hi i gysylltiad â Dylan gyntaf yn y tridegau, ac roedd yn grediniol ei fod yn fardd ifanc o bwys. Dechreuodd ei gefnogi drwy roi to uwch ei ben am gyfnodau byrion, ac ystafell er mwyn iddo ysgrifennu. Dros y blynyddoedd daeth i chwarae rôl fwy a mwy blaenllaw yn ei gynnal, er mawr ofid i'w gŵr, yr hanesydd blaenllaw A.J.P. Taylor. ...

Ond roedd Dylan am fyw yng Nghymru, a phan glywodd fod tŷ o'r enw The Boat House ar werth yn ei hoff dref, perswadiodd Margaret Taylor i'w brynu. Symudodd y teulu yno yng ngwanwyn 1949, gan ddechrau ar gyfnod newydd yn ei fywyd – ei flynyddoedd olaf.

Ar ddiwrnod braf mae'n anodd dychmygu tŷ mwy delfrydol ar gyfer bardd na'r Boat House. '[My] house on stilts' oedd disgrifiad Dylan Thomas ohono yn y gerdd 'Poem on his Birthday', ac mae wedi'i naddu bron iawn o'r graig uwchben afon Taf. Wedi dweud hynny, oherwydd grym y llanw, roedd yn lle digon peryglus i fagu plant, ac erbyn mis Gorffennaf 1949, roedd y trydydd o'r rheiny wedi cyrraedd: mab, ag enw Gwyddelig y tro hwn, Colm, ac enw Cymraeg yn enw Cymraeg yn enw canol – Garan, sef enw arall ar y crëyr glas a oedd yn ymwelydd cyson â glannau afon Taf.

Mae'r tŷ ychydig y tu allan i'r dref ar hyd llwybr sy'n arwain uwchlaw'r afon, a chyn cyrraedd ato, mae'r ymwelwyr – y pererinion llenyddol niferus sy'n tyrru yno bob blwyddyn – yn dod ar draws sied ysgrifennu Dylan. Dyma oedd un o brif atyniadau'r cartref i Dylan – ystafell bwrpasol ar gyfer ei waith, yn ddigon pell o dwrw'r teulu. Roedd yr olygfa'n ddelfrydol, ac i chwarae'i rhan yn rhai o'i gerddi olaf – yn edrych dros aber yr afon â'i fyrdd adar, a thua'r bryn – ysbrydoliaeth y gerdd 'Over Sir John's Hill'. Ac roedd rhythm bywyd yn Nhalacharn yn siwtio Dylan, yn enwedig pan ddaeth ei rieni oedrannus i fyw i dŷ o'r enw Pelican ynghanol y dref. Er bod Dylan yn gallu bod yn ffrind esgeulus – methodd fod yn bresennol ar gyfer ei ddyletswyddau fel gwas priodas i Vernon Watkins... – roedd yn fab cariadus a gofalus o'i rieni. Byddai'n ymweld â nhw bob bore i wneud croesair y *Times* gyda D.J., cyn taro draw i'w hoff dafarn gyferbyn – y dafarn sydd erbyn hyn yn fyd-enwog i bob pwrpas oherwydd y cysylltiad hwn, sef Brown's.

1. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

   Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | cywir | anghywir |
|---|---|---|
| Doedd Dylan ddim yn gallu cynilo arian. | | |
| Roedd Caitlin yn gwneud y gwaith tŷ ar ei phen ei hun. | | |
| Roedd Dylan eisiau aros yn Lloegr. | | |
| Dylan a Caitlin a brynodd y Boat House. | | |
| Roedd y Boat House yn lle da i fagu plant. | | |
| Dau blentyn oedd gan Dylan Thomas. | | |
| Roedd Dylan yn ffrind da. | | |
| Roedd Dylan yn fab da. | | |

2. **Tanlinellwch 2** idiom yn y frawddeg hon sy'n dangos sut nad oedd Dylan yn gallu rheoli arian.

... Ond doedd ganddo ddim syniad sut i gadw trefn ar bethau'n ariannol, ac ni lwyddodd erioed i gadw'r blaidd o'r drws, a phan fyddai'n cael gafael ar arian byddai'n ei wario fel dŵr.

3. Beth yw ystyr 'roedd yn byw yn fras' ?
   Ticiwch **1**.

   Roedd yn bwyta llawer o fraster yn ei fwyd. ☐

   Roedd yn byw bywyd oedd yn costio'n ddrud. ☐

   Roedd yn byw bywyd ar ras. ☐

   Roedd yn byw bywyd tlawd iawn. ☐

4. Edrychwch ar **y paragraff cyntaf** eto.
   Dewiswch a chopïwch **2** air sy'n dangos ble cafodd plant Dylan eu haddysg.

5. Edrychwch ar **y paragraff olaf** eto.
   Dewiswch a chopïwch **1** gair sy'n dweud bod rhieni Dylan yn hen.

6. Rhestrwch **4** peth yn y paragraff cyntaf roedd Dylan yn gwario arian arnyn nhw.

| |
|---|
| 1.<br><br>2.<br><br>3.<br><br>4. |

7. Dewiswch y gair gorau.
   Ticiwch **1** bob tro.

   **Pa fath o ddynes oedd Margaret Taylor, yn ôl y testun?**

   a. diflas gweithgar tal hael

   **Beth oedd gwaith gŵr Margaret Taylor?**

   b. golygydd hanesydd meddyg adeiladwr

   **Sut le oedd y Boat House i blant?**

   c. diogel delfrydol saff peryglus

8. **Esboniwch** beth yw ystyr y cymal 'roedd hi'n grediniol ei fod yn fardd ifanc o bwys' tua diwedd y paragraff cyntaf.

| |
|---|
| |

9. Pam roedd Dylan yn hoffi'r sied ysgrifennu? Rhowch **2** reswm.

| |
|---|
| |

10. Edrychwch ar **y paragraff olaf** eto.
Dewiswch a chopïwch **1 berfenw** sy'n dangos bod llawer o bobl yn dod i weld y Boat House bob blwyddyn.

11. Llenwch y tabl. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

| Enw | Ansoddair |
|---|---|
| cariad | Roedd Dylan yn fab **cariadus**. |
| Roedd angen ........................ ar rieni Dylan. | gofalus |
| Roedd Dylan yn dibynnu ar ............................... Margaret Taylor. | hael |
| arian | Roedd sefyllfa ....................... Dylan yn wael. |
| benyw | Roedd gan Dylan lawer o noddwyr ................................ |
| nifer | Mae ymwelwyr ....................... yn mynd i'r Boat House bob blwyddyn. |
| Y llanw cryf oedd y ...................... mwyaf i blant yn y Boat House. | peryglus |
| esgeulustod | Roedd Dylan Thomas yn ffrind .......................... . |